CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

ADRODDIAD BLYNYDDOL AELOD

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgarwch dros y flwyddyn fwrdeistrefol a ddaeth i ben ddiwedd mis Mawrth 2018. Caiff ei ddarparu er gwybodaeth i bob etholwr ac nid i unrhyw bwrpas arall.

Cyfarwyddiadau ar gyfer llenwi
Mae croeso i Gynghorwyr gynnwys gymaint neu cyn lleied o wybodaeth ag y dymunant ym mhob adran, fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i fformat 2 dudalen (fel uchafswm).

Y Cynghorydd: Trevor Bates **Plaid: Annibynnol**

Ward: Dyffryn Ceiriog

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau:
Rwyf yn aelod o'r Pwyllgorau canlynol (ffigyrau presenoldeb wedi'u darparu gan CBSW):

1. Pwyllgor archwilio
2. Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a'r Drefn Lywodraethol.
3. Pwyllgor Craffu Diogelu, Cymunedau a Lles.
4. Y Cyngor llawn

O fis Mai 2017 i fis Ebrill 2018 roeddwn yn aelod o Bwyllgor Craffu Cyflogaeth, Busnes a Buddsoddi

Pwyllgorau Allanol: Rwyf yn gynrychiolydd wrth gefn i CBS Wrecsam ar Gronfa Bensiynau Clwyd ac wedi mynychu un cyfarfod pwyllgor yn yr Wyddgrug a 4 diwrnod Hyfforddiant.

Adran 2: Gweithgaredd yn fy Etholaeth:

Mynychais 24 o gyfarfodydd yn 3 Ardal Cyngor Cymunedol Dyffryn Ceiriog.
Mi wnes i gyfarfod â Ken Skates ar 2 achlysur yn ymwneud â Gyrru Oddi ar y Ffyrdd
Rwyf yn cael sgyrsiau rheolaidd â'r goruchwyliwr Strydwedd Lleol a'r PCSOau.
Rwyf wedi dod â Swyddogion y Cyngor a swyddogion amrywiol i weld problemau yn Nyffryn Ceiriog (Prif Weithredwr, Arweinydd y Cyngor, Swyddogion Priffyrdd, Swyddogion Casgliadau Sbwriel, Swyddogion Tai, a Swyddogion Hawliau Tramwy)
Mynychais a helpu ar Ddiwrnod Amgylcheddol (Diwrnod Sgip) 18 Gorffennaf 2017.
Rwyf yn mynychu gymaint o weithgareddau Cymunedol ar draws Dyffryn Ceiriog ag y gallaf.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig:

Mynychais gyfarfod Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn y Cae Ras, Wrecsam a threfnu fod Cyfarwyddwyr W.A.S.T yn mynychu Cyfarfod Cyhoeddus yn Nyffryn Ceiriog yn ymwneud ag ymateb araf i alwadau 999 o bryd i'w gilydd. Mae hyn ar y gweill.

Trefnais gyfarfod yn fy ward lle roedd aelodau Cadwyn Clwyd yn bresennol i amlinellu'r grantiau a'r cymorth sydd ar gael.

Trefnais daith safle ar gyfer bobl leol i drafod materion Gyrru Oddi ar y Ffyrdd gyda chynrychiolwyr o'r Heddlu ac Adran Briffyrdd CBS Wrecsam.

Y Bwriad i Gau Ysgol Pontfadog : Mynychais bob un o'r pump cyfarfod ymgynghori a chyfarfod cyhoeddus a chynrychioli'r rhieni y gorau y gallwn i. (Parhaus)

Adran 4: Dysgu a Datblygu a Gwblhawyd

2 Weithdy Hyfforddi Archwilio, 3 Gweithdy Gosod Cyllideb, Cod Ymddygiad Cyfansoddiad y Cyngor, Cynllun y Cyngor, Gwelliannau Amgylcheddol i Dai'r Cyngor, Hawliau Dynol a Chydraddoldeb, Deddf Sipsiwn, Teithwyr a Thai 2014, Hyfforddiant TGCh, Iechyd a Diogelwch, Ymwybyddiaeth Gorfodi Tai, Cynllun Twf Gogledd Ddwyrain Cymru, Rheoli Risg, Gweithdy Gwastraff, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hyfforddiant a gweithdai eraill a fynychwyd:

Ymwybyddiaeth Dementia, Ymestyn / Befriending, Defnydd Diogel o Blaladdwyr a Chwistrellu Cefn, seminarau amrywiol am reolaeth amgylcheddol a Defaid a drefnwyd gan Gyswllt Ffermio.

Sesiwn 5: Gweithgareddau a Materion Eraill:

Pan godwyd Arwyddion enwau Pentrefi newydd trefnais i'r hen arwyddion gael eu gwerthu gan godi £478 ar gyfer Sefydliadau Dyffryn Ceiriog.

Yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi defnyddio fy mheiriannau torri gwair a gwrychoedd i dacluso mannau cyhoeddus. Rwyf yn aml yn defnyddio fy nghamera ar gyfer cyhoeddusrwydd digwyddiadau a gweithgareddau lleol yn y wasg ac ar gyfryngau cymdeithasol.

Fy rolau gwirfoddol ar hyn o bryd yw : Cadeirydd a dosbarthydd Newyddion Glyn, Ymddiriedolwr Canolfan Ceiriog, Trysorydd Cymdeithas Cŵn Defaid Dyffryn Ceiriog, Arweinydd y Grŵp Sgowtiaid, Trysorydd Chwaraewyr Dyffryn Ceiriog.

Ward Dyffryn Ceiriog sydd â'r ardal fwyaf o dir yn Sir Wrecsam ac rwyf yn teithio ymhellach i gyrraedd Neuadd y Dref nag unrhyw Gynghorydd arall.

Llofnod y Cynghorydd: Trevor Bates **Dyddiad: 26 Gorffennaf 2018**